***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, Paragraff 5. (See end of Document for details)*

# ATODLEN

## COMISIYNYDD SAFONAU [F1Y SENEDD]

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair ym mhennawd yr Atod. wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 3(5)(a)**

### *Ariannol*

5 (1) Rhaid i'r Comisiwn —

(a) talu i'r Comisiynydd unrhyw gyflog ac unrhyw lwfansau, a

(b) gwneud unrhyw daliadau tuag at ddarparu buddion blwydd-dal ar gyfer y Comisiynydd neu mewn perthynas ag ef,

y darperir ar eu cyfer gan delerau penodi'r Comisiynydd neu o danynt.

(2) Rhaid i'r Comisiwn dalu i berson neu mewn perthynas â pherson sydd wedi rhoi'r gorau i ddal swydd y Comisiynydd unrhyw symiau (os oes rhai) ar ffurf —

(a) pensiwn neu roddion, neu

(b) darpariaeth ar gyfer y buddion hynny,

y darparwyd ar eu cyfer gan delerau penodi'r Comisiynydd neu o danynt.

(3) Rhaid i'r Comisiwn dalu unrhyw rwymedigaethau rhesymol y mae'r Comisiynydd wedi'u hysgwyddo'n gyfreithlon —

(a) wrth gyflogi staff,

(b) wrth sicrhau bod nwyddau neu wasanaethau'n cael eu darparu, ac

(c) mewn perthynas â lwfansau a threuliau personau sy'n rhoi tystiolaeth neu sy'n cyflwyno dogfennau.

(4) Mae symiau y mae eu hangen er mwyn gwneud taliadau o dan is-baragraffau (1) a (2) i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. para. 5 mewn grym ar 10.12.2009, gweler **a. 21(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, Paragraff 5.